OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 2060 (Cy.209)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2002

Wedi'i wneud	- -	*31 Gorffennaf 2002*
Yn dod i rym	- -	*1 Awst 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, a hwythau'n gweithredu ar y cyd wrth arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1,7 ac 8 o Ddeddf Iechyd Anifeilaid 1981(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Teitl, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2002; mae'n gymwys i Gymru yn unig a daw i rym ar 1 Awst 2002.

Diwygiad i Orchymyn Crynoadau Anifeiliad (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002

2.—(1) Diwygir Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002 (**2**) yn unol â darpariaethau canlynol yr erthygl hon.

(2) Yn erthygl 2—

(a) cyn y diffiniad o "crynhoad anifeiliaid", mewnosodir y diffiniad canlynol—

"ystyr "anifeiliaid" ("*animals*") yw gwartheg (ac eithrio buail a iacod), ceirw, geifr, defaid a moch;".

(b) cyny diffiniad o "diheintydd a gymeradwywyd", ychwanegir y diffiniad canlynol—

"mae "cyfarpar" ("*equipment*") yn cynnwys corlannau a chlwydi;".

(**1**) 1981 p.22. Gweler adran 86(1) i gael y diffiniadau o "the Ministers" a "the Minister". Mewn perthynas â Chymru, trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672); ac i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban fe'u trosglwyddwyd i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141). Trosglwyddwyd ymhellach wedyn bob un o swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

(**2**) O.S.2002/283 (Cy.34), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/1358 (Cy.134).